SL(5)515 – Rheoliadau Gwybodaeth am Fwyd (Cymru) (Diwygio) 2020

Cefndir a Diben

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Gwybodaeth am Fwyd (Cymru) 2014 (O.S. 2014/2303 (Cy. 227)) ("Rheoliadau 2014") er mwyn galluogi'r broses o orfodi, yng Nghymru, Erthygl 26(3) o Reoliad (EU) Rhif 1169/2011, fel y'i darllenir gyda Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (EU) 2018/775, a hynny'n weithredol o 1 Ebrill 2020.

Mae Erthygl 26(3) o Reoliad (EU) Rhif 1169/2011 yn gosod gofynion i ddarparu gwybodaeth benodol o ran gwlad tarddiad neu darddle'r prif gynhwysyn mewn bwyd pan fo'n wahanol i wlad tarddiad neu darddle'r bwyd. Mae Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (EU) 2018/775 yn gosod rheolau ar gyfer cymhwyso Erthygl 26(3).

Mae Rheoliadau 2014, fel y'u diwygiwyd gan y Rheoliadau hyn, yn galluogi hysbysiad gwella i gael ei gyflwyno sy'n ei gwneud yn ofynnol cydymffurfio ag Erthygl 26(3) a darpariaethau Rheoliad 2018/775. Mae methu â chydymffurfio â'r hysbysiad gwella yn drosedd. Yn ogystal â hynny, mae gan yr awdurdodau gorfodi bwerau mynediad ac arolygu (gan gynnwys ymafael mewn cofnodion) o dan Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990, fel y'i diwygiwyd gan Reoliadau 2014 at y dibenion hyn.

Gweithdrefn

Negyddol.

Materion technegol: craffu

Ni nodwyd unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

Rhinweddau: craffu

Ni nodwyd unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

Y goblygiadau yn sgil gadael yr Undeb Ewropeaidd

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau 2014 i weithredu, yng Nghymru, ddarpariaeth ar gyfer gorfodi rhwymedigaethau'r UE mewn perthynas â labelu bwyd. Bydd Rheoliadau diwygiedig 2014 yn rhan o gyfraith yr UE a ddargedwir ar ôl diwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu (h.y. diwedd y cyfnod gweithredu, ar 31 Rhagfyr 2020).

Ymateb y Llywodraeth

Nid oes angen ymateb gan y Llywodraeth.

Trafodaeth y Pwyllgor

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn yn ei gyfarfod ar 24 Mawrth 2020 ac mae'n cyflwyno adroddiad i'r Cynulliad i dynnu sylw at faterion sy'n codi o ganlyniad i ymadawiad y DU â'r UE.